SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo neu'n goruchwylio chwarae plant neu bobl ifanc a gweithgareddau hamdden. Mae'n addas ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn unrhyw fath o ysgol gan gynnwys ysgolion uwchradd.

**Am beth mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon yn ymwneud â rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc brofi amrywiaeth o amgylcheddau chwarae sy'n eu hysgogi ac yn rhoi cyfleoedd ar gyfer risg, her a thwf personol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys pedair elfen:**

1. Creu ystod o amgylcheddau ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc
2. Cynnig ystod o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc
3. Cynorthwyo hawliau a dewisiadau plant a phobl ifanc wrth chwarae
4. Dod â sesiynau chwarae i ben.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Creu ystod o amgylcheddau ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc**

P1 gofyn i blant a phobl ifanc beth mae arnynt eu heisiau yn eu hamgylchedd chwarae

P2 defnyddio adborth am amgylcheddau chwarae y mae plant a phobl ifanc wedi'u rhoi o'r blaen

P3 nodi anghenion chwarae plant a phobl ifanc

P4 creu amgylcheddau chwarae sy'n diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn y lleoliad

P5 gwneud yn siŵr bod amgylcheddau chwarae yn cynnig her, ysgogiad a'r potensial ar gyfer twf personol plant a phobl ifanc

P6 gwneud yn siŵr bod digon o hyblygrwydd, amrywiaeth a dewis o adnoddau

P7 lle bynnag y bo'n bosibl, cynnwys y plant a'r bobl ifanc wrth greu'r amgylcheddau chwarae

P8 gwneud yn siŵr bod yr amgylcheddau chwarae yn bodloni gofynion eich sefydliad a'ch deddfau perthnasol

**Cynnig ystod o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc**

P9 trafod rheolau sylfaenol ar gyfer cyfleoedd chwarae a chytuno arnynt gyda'r plant a'r bobl ifanc, gan wneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

P10 annog a chynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc i archwilio a dewis cyfleoedd chwarae drostynt eu hunain

P11 cynnig syniadau ac adnoddau newydd ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc

P12 annog y plant a'r bobl ifanc i addasu'r syniadau a'r adnoddau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain

**Cynorthwyo hawliau a dewisiadau plant a phobl ifanc wrth chwarae**

P13 gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael chwarae mewn ffordd hunangyfeiriedig ochr yn ochr â pharchu hawliau pobl eraill

P14 annog y plant a'r bobl ifanc i ymestyn eu hunain drwy chwarae heb danseilio eu hyder a'u hunan-barch

P15 annog plant a phobl ifanc i archwilio a chyfarwyddo amgylcheddau chwarae drostynt eu hunain

P16 rhoi cymorth i blant a phobl ifanc mewn ffordd nad yw'n tanseilio eu rheolaeth

bersonol a sut maent yn cymryd rhan
P17 ymateb i ysgogiadau chwarae plant a phobl ifanc
P18 cymryd rhan mewn chwarae pan mai dyma beth mae plant a phobl ifanc ei eisiau

**Dod â sesiynau chwarae i ben**
P19 dod â'r sesiwn chwarae i ben mewn ffordd sy'n briodol i'r plant a'r bobl ifanc, i ba raddau roeddent yn cymryd rhan, a gofynion eich lleoliad chwarae
P20 galluogi plant i roi adborth ar y cyfleoedd a'r amgylcheddau chwarae a nodi'r adborth hwn ar gyfer sesiynau yn y dyfodol
P21 dilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer sicrhau diogelwch y plant a'r bobl ifanc wrth iddynt adael
P22 dilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer tacluso'r amgylchedd chwarae a delio ag adnoddau
P23 cwblhau'r holl gofnodion gofynnol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 rhagdybiaethau a gwerthoedd y gwaith chwarae sy'n berthnasol i'r uned hon
K2 pwysigrwydd chwarae i ddatblygiad plant a phobl ifanc
K3 pam y dylai chwarae plant a phobl ifanc fod yn hunangyfeiriedig
K4 pam y dylai cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc
K5 pam mae’n bwysig gofyn i blant a phobl ifanc am yr hyn maen nhw ei eisiau yn eu hamgylchedd chwarae
K6 sut i nodi anghenion chwarae plant a phobl ifanc
K7 y mathau o amgylchedd chwarae sy'n ysgogi chwarae plant a phobl ifanc a'r rôl y gallwch chi ei chwarae wrth helpu i gynnig yr amgylchedd hwnnw
K8 pwysigrwydd risg a her mewn chwarae plant a phobl ifanc a sut i gydbwyso'r rhain yn erbyn gofynion iechyd a diogelwch
K9 pam mae angen amrywiaeth a dewis ar blant a phobl ifanc yn y lleoliad chwarae
K10 pwysigrwydd cynllunio cyfleoedd chwarae sy'n hyblyg ac y gellir eu haddasu'n rhwydd gan y plant a'r bobl ifanc i'w hanghenion eu hunain
K11 pam y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o greu amgylcheddau chwarae a sut i’w hannog i wneud hynny
K12 gofynion eich sefydliad sy'n berthnasol i greu amgylcheddau chwarae
K13 gofynion sylfaenol deddfau perthnasol y mae angen i chi eu dilyn wrth greu amgylcheddau chwarae
K14 pam mae’n bwysig cynnig cyfleoedd chwarae ochr yn ochr â pharchu hawl plant a phobl ifanc i archwilio ac addasu'r cyfle i'w hanghenion eu hunain
K15 pam mae’n bwysig cynnwys plant a phobl ifanc wrth drafod a chytuno ar reolau sylfaenol
K16 pam mae’n bwysig annog plant a phobl ifanc i archwilio, dewis ac addasu cyfleoedd chwarae drostynt eu hunain
K17 sut i gydbwyso hawliau'r plentyn neu'r person ifanc i chwarae mewn ffordd hunangyfeiriedig yn erbyn hawliau pobl eraill
K18 y mathau o gymorth y gallai fod ei angen ar blant a phobl ifanc i addasu cyfle chwarae a sut i roir cymorth hwn heb gymryd rheolaeth
K19 pam y dylai plant a phobl ifanc ymestyn eu hunain drwy chwarae a sut i annog hyn
K20 y peryglon o wthio plant a phobl ifanc yn rhy bell a thanseilio eu hyder a'u hunan-barch a'r arwyddion y gallai hyn fod yn digwydd
K21 y mathau o gymorth y gallai fod ei angen ar blant a phobl ifanc yn ystod chwarae

K22 sut i nodi pryd mae angen cymorth ar blant a phobl ifanc yn ystod cyfle chwarae
K23 pam mae'n bwysig rhoi cymorth heb danseilio rheolaeth bersonol y plant a'r bobl ifanc o'u chwarae
K24 ysgogiadau chwarae plant a phobl ifanc a pham mae'n bwysig ymateb i'r rhain mewn modd sensitif
K25 sefyllfaoedd lle gallai eich rôl eich hun mewn chwarae helpu'r plant a'r bobl ifanc i chwarae rhan fwy blaenllaw a chael mwy o fwynhad, a sefyllfaoedd lle gallai hyn gael yr effaith i'r gwrthwyneb.
K26 sut i ddod â sesiwn chwarae i ben mewn ffordd sy'n parchu anghenion a'r ffordd y mae'r plant a'r bobl ifanc yn cymryd rhan, ond sy'n bodloni gofynion eich lleoliad chwarae
K27 gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer tacluso'r lleoliad chwarae a delio â'u ffynonellau
K28 gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer yr adegau pan fydd plant a phobl ifanc yn ymadael K29 gweithdrefnau cadw cofnodion eich sefydliad

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Creu ystod o amgylcheddau ar gyfer chwarae plant a phobl ifanc**

1. **Plant a phobl ifanc**

1.1. ag anghenion ychwanegol

1.2. o wahanol gefndiroedd cymdeithasol

1.3. o wahanol gefndiroedd diwylliannol

1.4 bechgyn

1.5. genethod

1.

**Grwpiau oedran**

2.1. 4 – 7 oed

2.2. 8 – 12 oed

2.3. 13 – 16 oed

2.

**Amgylchedd chwarae** ar gyfer

3.1. chwarae corfforol

3.2. chwarae amgylcheddol

3.3. chwarae creadigol

3.4. chwarae diwylliannol

3.5. chwarae dychmygus

3.

**Lleoliad**

4.1. dan do

4.2. awyr agored

4.

**Adnoddau**

5.1. cyfarpar

5.2. deunyddiau

**Cynnig ystod o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc**

6. **Cyfleoedd chwarae**

6.1. corfforol

6.2. amgylcheddol

6.3. creadigol

6.4. diwylliannol

6.5. dychmygus

7. **Plant a phobl ifanc**
7.1. ag anghenion ychwanegol
7.2. o wahanol gefndiroedd cymdeithasol
7.3. o wahanol gefndiroedd diwylliannol
7.4. bechgyn
7.5. genethod

8. **Grwpiau oedran**
8.1. 4 – 7 oed
8.2. 8 – 12 oed
8.3. 13 – 16 oed

**Cynorthwyo hawliau a dewisiadau plant a phobl ifanc wrth chwarae**

8. **Plant a phobl ifanc**
8.1. ag anghenion ychwanegol
8.2. o wahanol gefndiroedd cymdeithasol
8.3. o wahanol gefndiroedd diwylliannol
8.4. bechgyn
8.5. genethod

9. **Grwpiau oedran**
9.1. 4 – 7 oed
9.2. 8 – 12 oed
9.3. 13 – 16 oed

10. **Amgylcheddau chwarae**
10.1. chwarae corfforol
10.2. chwarae amgylcheddol
10.3. chwarae creadigol
10.4. chwarae diwylliannol
10.5. chwarae dychmygus

**Cynorthwyo chwarae plant a phobl ifanc**

8. **Plant a phobl ifanc**
8.1. ag anghenion ychwanegol
8.2. o wahanol gefndiroedd cymdeithasol

8.3. o wahanol gefndiroedd diwylliannol
8.4. bechgyn
8.5. genethod

**Grwpiau oedran**

8.6. 4 – 7 oed
8.7. 8 – 12 oed
8.8. 13 – 16 oed

## Geirfa